Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Cyfarfod Llawn

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 30 Ebrill 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

## Agenda
(127)v5

### 1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y cwestiynau

**Cwestiwn Brys**
Elin Jones (Ceredigion): Pa gymorth y gall Llywodraeth Cymru ei gynnig i Lyfrgell Genedlaethol Cymru yn sgîl y tân diweddar?

### 2. Cwestiynau i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon (45 munud)

Gweld y cwestiynau

### 3. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

### 4. Datganiad gan y Prif Weinidog: Y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus (45 munud)

### 5. Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Cyflwyno'r Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) (60 munud)

**Dogfennau Ategol**

Datganiad Ysgrifenedig - Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru)

Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) fel y'i cyflwynyd

Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2013
Memorandwm Esboniadol

**6. Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Diddymu'r cyrff sy'n gysylltiedig â'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol (30 munud)**

**7. Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Colli swyddi yn Rowecord yng Nghasnewydd (30 munud)**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 1 Mai 2013

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 25 Ebrill 2013 i'w hateb ar 30 Ebrill 2013

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. Lindsay Whittle (Dwyrain De Cymru): Pa gynnydd y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud wrth weithio gyda Gwasanaeth Iechyd a Lles Cyn-filwyr Cymru Gyfan i ddarparu triniaeth a chefnogaeth ddigonol ar gyfer cyn-filwyr Cymru sy'n dioddef o anhwylder straen wedi trawma? OAQ(4)1017(FM)

2. David Rees (Aberafan): Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch rhoi ystyriaeth bellach i ddatganoli cydsyniadau ynni yng Nghymru? OAQ(4)1026(FM)

3. Andrew RT Davies (Canol De Cymru): Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi busnesau bach a chanolig yng Nghanol De Cymru? OAQ(4)1015(FM)

4. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd): Beth yw cynlluniau'r Gweinidog i wella'r amgylchedd yn ardal Gogledd Caerdydd? OAQ(4)1027(FM)

5. Aled Roberts (Gogledd Cymru): Beth yw barn y Prif Weinidog ynghylch hawl plant a'u rhieni i gael gwybodaeth am asbestos mewn ysgolion a sut mae'r asbestos hynny yn cael ei reoli? OAQ(4)1020(FM)W

6. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru): Pa fanteision economaidd i Gymru y mae'r Prif Weinidog yn disgwyl eu gweld o ganlyniad i bresenoldeb Dinas Abertawe a Dinas Caerdydd yn Uwchgynghrair Lloegr? OAQ(4)1018(FM)

7. Lynne Neagle (Torfaen): Sut y mae'r Prif Weinidog yn bwriadu gwella iechyd a lles trigolion Torfaen? OAQ(4)1030(FM)

8. Keith Davies (Llanelli): A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu safbwynt Llywodraeth Cymru ynghylch trwydded Sianel 3 ar wahân i Gymru? OAQ(4)1029(FM)

**9. Ken Skates (De Clwyd):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru am gefnogi economi gogledd Cymru yn 2013? OAQ(4)1022(FM)

**10. Rebecca Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau i gefnogi pobl sy'n dioddef o Sglerosis Ymledol? OAQ(4)1021(FM)

**11. Alun Ffred Jones (Arfon):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y sefyllfa o ran recriwtio staff meddygol i'r gwasanaeth iechyd yn ardal bwrdd iechyd lleol Betsi Cadwaladr? OAQ(4)1019(FM)**W**

**12. Byron Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am statws TAN 8? OAQ(4)1025(FM)

**13. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am brosiectau ynni cymunedol yng Nghymru? OAQ(4)1028(FM)

**14. Mick Antoniw (Pontypridd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol Remploy yng Nghymru? OAQ(4)1023(FM)

**15. Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu polisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig? OAQ(4)1024(FM)

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 23 Ebrill 2013 i'w hateb ar 30 Ebrill 2013

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

## Gofyn i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon

1. Ann Jones (Dyffryn Clwyd): Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i annog mwy o ferched ifanc i gymryd rhan mewn chwaraeon? OAQ(4)0006(CS)

2. Janet Finch-Saunders (Aberconwy): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am warchod adeiladau hanesyddol mewn ardaloedd cadwraeth yng Nghymru? OAQ(4)0013(CS)

3. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru): Sut y mae'r Gweinidog yn bwriadu ymdrin â'r diffiniad o 'ddiogelwch' yn y Bil Teithio Llesol (Cymru)? OAQ(4)0008(CS)

4. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe): Pa gyngor y mae Cadw yn ei roi ynglyn ag adfer adeiladau hanesyddol sydd â statws rhestredig? OAQ(4)0003(CS)

5. Nick Ramsay (Mynwy): A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei gynlluniau i hyrwyddo sector treftadaeth Cymru? OAQ(4)0007(CS)

6. Gwyn Price (Islwyn): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hybu beicio yn Islwyn? OAQ(4)0009(CS)

7. Andrew RT Davies (Canol De Cymru): Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi chwaraeon ar lawr gwlad yng Nghanol De Cymru? OAQ(4)0001(CS)

8. Mark Isherwood (Gogledd Cymru): Sut y mae Llywodraeth Cymru yn diogelu ein treftadaeth adeiledig? OAQ(4)0004(CS)

9. Mick Antoniw (Pontypridd): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn amlinellu'r cymorth sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru i gerddoriaeth ar lawr gwlad yng Nghymru? OAQ(4)0012(CS)

**10. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** Beth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i gynyddu nifer y merched sy'n chwarae pêl-droed ar bob lefel? OAQ(4)0005(CS)

**11. Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** Pa adnoddau y mae Llywodraeth Cymru yn eu darparu i ddatblygu bowlio lawnt gefngrom? OAQ(4)0002(CS)

**12. Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am berfformiad cydymffurfiaeth statudol Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog? OAQ(4)0011(CS)

**13. Lynne Neagle (Torfaen):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer chwaraeon yn Nhorfaen? OAQ(4)0010(CS)

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dydd Mawrth 7 Mai a dydd Mercher 8 Mai 2013

Dydd Mawrth 14 Mai a dydd Mercher 15 Mai 2013

Dydd Mawrth 21 Mai a dydd Mercher 22 Mai 2013

*****************************************************************

Dydd Mawrth 7 Mai 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyllid: Dyraniadau Cyfalaf (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyllid: Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (30 munud)
- Dadl: Diwygio'r Gwasanaethau Cyhoeddus (60 munud)
- Dadl: Adolygiad yr Athro McClelland o Wasanaeth Ambiwlans Cymru (60 munud)

Dydd Mercher 8 Mai 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Tai ac Adfywio (45 munud)

Busnes y Cynulliad

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar ei ymchwiliad undydd i farw-enedigaethau yng Nghymru (60 munud)
- Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar ei ymchwiliad i bolisi Llywodraeth Cymru ar yr amgylchedd hanesyddol (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl Fer - Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru) (30 munud)

Dydd Mawrth 14 Mai 2013

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Prif Weinidog: Cynnydd o ran rhoi "Ynni Cymru" ar waith (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyllid: Ymateb Llywodraeth Cymru i Argymhellion Adroddiad Guildford (30 munud)
- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg: hynt Twf Swyddi Cymru - flwyddyn yn ddiweddarach (30 munud)
- Dadl: Cryfhau Democratiaeth Llywodraeth Leol (60 munud)

**Dydd Mercher 15 Mai 2013**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl fer - Mark Isherwood (Gogledd Cymru) (30 munud)

**Dydd Mawrth 21 Mai 2013**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi: Diwygio Lles (45 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Law yn Llaw at Iechyd – Adroddiad Cynnydd Chwe Mis (45 munud)

- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg: Sgiliau Hanfodol yn y Gweithle (30 munud)

**Dydd Mercher 22 Mai 2013**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (15 munud)
- Dadl ar Araith y Frenhines (120 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyllid, Buddsoddi i Arbed (60 munud)
- Dadl fer – Suzy Davies (Gorllewin De Cymru) (30 munud)